Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Trelech
# Canolfan Cymuned Trelech
# Trelech
# SA33 6RU

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Trelech sydd wedi`i leoli yn y ganolfan gymunedol yn y pentref. Cafodd ei sefydlu yn 1977 ac mae'n gwasanaethu`r gymuned wledig hon sydd tua 10 milltir i'r gogledd o Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Fudiad Meithrin.

Daw`r mwyafrif o`r plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg a Chymraeg yw'r brif iaith sy`n cael ei siarad yn yr ardal.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn hyd at 16 o blant mewn unrhyw sesiwn. Mae`r plant yn cael eu derbyn o ddwy oed ac yn symud ymlaen i'r ysgol gynradd leol yn y tymor cyn eu bod yn bedair. Ar hyn o bryd mae saith o blant ar y gofrestr, ac o'r rhain mae tri yn blant tair oed. Mae pob plentyn tair oed yn cael eu hariannnu.

Mae'r lleoliad ar agor am bedwar bore'r wythnos (nid dydd Mawrth) rhwng 9 y.b. a 11.30 y.b. Mae Cylch Ti a Fi yn ymuno â'r lleoliad am 11.30 ar ddydd Llun.

Mae dau aelod o staff llawn amser, ac mae gan y ddau ohonynt gymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers Medi 2013.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC yn 2014 ac yn 2010 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol Cylch Meithrin Trelech yn dda oherwydd:

- Mae`r plant yn mwynhau dod i`r lleoliad ac yn ymgartrefu`n fuan
- Mae ethos hapus a chroesawgar yn amlwg
- Mae`r berthynas yn ragorol ac mae`r plant yn cael gofal a chefnogaeth dda
- Mae`r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb yn dda i`w hanghenion
- Mae`r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer y plant
- Yn gyffredinol, mae`r adnoddau o ansawdd da ac mae`r amgylchedd dysgu wedi`i gynllunio`n dda i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen
- Mae`r plant wedi`u paratoi`n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd:

- Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu`r lleoliad
- Mae`r ddau ymarferydd wedi ymrwymo`n gryf i gynnal safonau uchel a gwella`r ddarpariaeth lle bynnag mae`n bosib
- Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n effeithlon fel tîm
- Mae`r pwyllgor rheoli`n cael ei hysbysu`n dda ac yn hollol gefnogol o`r lleoliad
- Mae`r gefnogaeth gan athrawes gefnogi`r awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin wedi bod yn hynod o effeithiol ac yn cael ei defnyddio`n dda gan y lleoliad
- Yn yr amser byr ers ei hapwyntiad, mae`r arweinydd wedi gwneud effaith arwyddocaol ar ddarpariaeth y lleoliad ac ar gyflawniad a lles y plant
Mae`r bartneriaeth gyda rhieni a`r ysgol leol yn dda.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach y gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad medrau`r plant yn glir

A2 Defnyddio canlyniadau`r asesu wrth gynllunio fel bod gweithgareddau`n cyfateb yn dda i allu`r plant a`u darparu â her digonol

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau TGCh

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau a`r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu`r plant yn cael ei wneud ar y cyd ac yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau plant a'u hawgrymiadau. Mae`r cynllunio wythnosol yn fanwl ac yn darparu`r plant â gweithgareddau cyffrous sy'n ennyn eu diddordeb yn llawn. Mae ymatebion y plant yn cael eu nodi. Fodd bynnag, nid yw`r gwerthusiad o gyflawniadau`r plant yn canolbwyntio`n ddigonol bob amser ar nodi datblygiad medrau`r plant.

Mae'r cynllunio yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhifedd y plant o fewn y thema sy`n cael ei dewis ac i gysylltu eu dysgu â digwyddiadau go iawn fel cysylltu rhif ag oedrannau`r plant. Mae'r cynlluniau`n ddigon hyblyg i ymateb i ddiddordebau`r plant ac yn darparu ar gyfer datblygu sgiliau meddwl plant, fel wrth ymchwilio a ydy`r gwrthrychau mae`r plant wedi`u dewis yn suddo neu'n arnofio. Mae`r gweithgareddau sydd wedi`u cynllunio, fel gwneud pwdinau llaeth, yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddefnyddio ystod eang o sgiliau ymarferol. Mae gweithgareddau pwrpasol o'r fath yn ymgorffori sgiliau llythrennedd wrth ddarllen rysáit, sgiliau rhifedd mewn mesur a phwyso a sgiliau echddygol wrth gymysgu a thorri.

Mae digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio i alluogi`r plant i weithio'n annibynnol ond mae`r cyfleoedd sy`n cael eu darparu i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn gyfyngedig.

Cymraeg yw`r iaith cyfathrebu yn y lleoliad ac mae`r ymarferwyr yn sgwrsio'n rhugl gyda`r plant. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i siarad, ymateb i gwestiynau, trafod eu gweithgareddau, canu a gwrando ar storïau yn y Gymraeg. Mae hyn yn effeithiol o ran datblygu a chyfoethogi iaith y plant.

Mae`r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau sy`n cael eu trefnu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae`r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill trwy astudio, er enghraifft arferion a bwydydd Tseiniaidd.

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau buddiol yn yr ardal weithgaredd y tu allan, gan gynnwys plannu a thyfu hadau. Mae`r plant yn dysgu am sut i ofalu am bethau byw a`u parchu. Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r gymuned leol ac mae`r plant yn dysgu am bwysigrwydd ailgylchu drwy gompostio bwyd gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n dda fel tîm i ddarparu profiadau dysgu ysgogol a chyffrous i'r plant, y tu mewn i'r ystafell ddosbarth a thu allan. Mae hyn yn hynod o effeithiol drwy hyrwyddo cyfranogiad a mwynhad y plant. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae'r cynllunio a'r addysgu`n adlewyrchu gofynion o'r fath. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac mae'r rhain yn cael eu bodloni i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae`r ymarferwyr yn deall athroniaeth gyffredinol y Cyfnod Sylfaen, hynny yw, bod plant yn dysgu drwy chwarae. Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion a`u dewis gan y plentyn gyda phwyslais buddiol ar ddatblygu`r plant fel dysgwyr annibynnol. Mae`r gweithgareddau a`r arferion o ddydd i ddydd wedi eu sefydlu'n dda. Mae plant yn gwybod ble i ofyn am gymorth ac yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a`r cysur sy`n cael eu darparu ar eu cyfer yn ôl yr angen. Mae'r ddau ymarferwyr yn fodelau rôl iaith effeithiol ac mae hyn yn effeithio`n dda ar ddatblygiad iaith y plant.

Mae trefniadau digonol ar waith i gofnodi cyflawniad a chynnydd y plant. Mae cofnodion o waith y plant a nodiadau yn cael eu cadw mewn ffeiliau plant unigol. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu dyddio ac yn rhoi arwydd da o gynnydd plant yn y chwe maes dysgu. Mae'r cofnodion ar gael i rieni. Mae gwybodaeth am gyflawniad y plant hefyd ar gael i'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant. Fodd bynnag, nid yw`r cofnodion cyflawniad bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar fedrau allweddol y plant. Cyfyngedig yw defnydd y cofnodion asesu wrth nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant ac wrth gynllunio strategaethau dysgu i`r dyfodol sy`n cyfateb yn dda â gallu`r plant a`u darparu â her digonol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i gefnogi lles plant ac i annog plant i fyw'n iach. Er enghraifft, mae`r plant yn cael eu hannog i wisgo`u cotiau cyn gweithgareddau yn yr awyr agored ac i olchi eu dwylo cyn byrbrydau. Mae`r byrbrydau yn achlysuron cymdeithasol da lle mae`r ymarferwyr a`r plant yn eistedd a sgwrsio wrth fwyta ac yfed. Mae cydweithredu ac annibyniaeth yn cael eu pwysleisio. Mae`r plant yn cael eu hannog i helpu eu hunain ac i gymryd amser dros eu bwyd a diod. Mae cyfleoedd addas wedi`u hymgorffori ymhob sesiwn i`r plant fod yn egnïol yn gorfforol.

Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i feithrin profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae pwyslais cyson yn cael ei roi ar

werthoedd, fel tegwch a pharch ac i helpu plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae ymddygiad bob amser yn dda ac mae`r plant yn dysgu i ofalu a pharchu`u gilydd.

Mae hon yn gymuned ofalgar ac mae`r plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol fel rhan o'r drefn ddyddiol. Mae`r plant yn dysgu am bobloedd eraill, fel yn ystod "diwrnod Awstralia" a thrwy gwrdd ag ymwelydd lleol o Seland Newydd.

Mae'r lleoliad yn dechrau annog plant i feddwl am gynaliadwyedd ac ailgylchu. Mae`r plant yn compostio gwastraff bwyd ac yn casglu papur gwastraff.

Mae gan y lleoliad ystod briodol o bolisïau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nid oes unrhyw blentyn yn bresennol ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle pe bai`r lleoliad yn derbyn unrhyw blentyn sydd ag anghenion o'r fath yn y dyfodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gynhwysol ac mae gan fechgyn a merched o bob oedran a gallu hawl gyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau. Mae'r holl blant yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi fel unigolion. Mae'r staff yn ymwybodol o'u hanghenion unigol ac mae`r plant yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Ar y cyfan, mae`r plant yn hapus yn nghwmni ei gilydd.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da, sy`n briodol i oedran y plant, i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Eithriad i hyn yw'r cyflenwad cyfyngedig o offer i gefnogi datblygu sgiliau TGCh y plant. Ar y cyfan, mae`r ystafell addysgu yn helaeth, yn lliwgar ac wedi`i chynllunio'n dda i fodloni anghenion y plant; mae'n amgylchedd dysgu cyffrous ar gyfer y plant.

Mae'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored wedi ei gynllunio yn dda i fodloni anghenion y plant ac yn cael ei ddefnyddio`n ddyddiol. Mae'n caniatáu ar gyfer gweithgareddau tywod a dŵr ac ar gyfer ymchwiliadau sylfaenol, fel darganfod pa wrthrychau sy`n arnofio a suddo. Mae'r awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n dda fel amgylchedd dysgu sy`n ategu`r gwaith sy`n digwydd dan do.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd sydd wedi`i hapwyntio yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy`n seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ffocws cryf ar sicrhau bod yr holl blant yn cyflawni`u potensial yn llawn.

Mae'r arweinydd wedi sefydlu perthynas waith gref gyda'i chydweithiwr ac mae'r ddwy yn rhannu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad sy`n seiliedig ar ddarparu amgylchedd gofalgar, cefnogol i bob plentyn. Maen nhw`n cydweithio'n dda fel tîm ac yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu addysg effeithiol, gwerth chweil i'r plant. Maen nhw`n adnabod y plant yn dda ac yn llwyddo i fodloni anghenion unigol y plant.

Mae'r berthynas gyda phlant a rhieni yn rhagorol ac mae`r rhieni yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn hawdd mynd at yr ymarferwyr a bod y plant yn hapus ac yn awyddus i fod yn bresennol.

Mae'r arweinydd yn weithgar a chydwybodol ac wedi canolbwyntio ei hymdrechion ar sicrhau darpariaeth dda ar gyfer y plant a gwneud y mwyaf o`u safonau cyflawniad a lles. Yn hyn mae hi wedi bod yn llwyddiannus.

Mae perthynas dda gyda'r pwyllgor rheoli. Mae'r pwyllgor yn cael ei hysbysu`n dda am waith y lleoliad ac yn gwbl gefnogol. Mae gwaith y staff a'r lleoliad yn cael ei werthfawrogi ac mae pawb wedi ymrwymo'n gryf i gynnal a gwella safonau lle bo hynny'n bosibl.

Mae`r rheolaeth o ddydd i ddydd yn effeithlon gyda'r staff yn ymgymryd â rolau gwahanol yn ôl yr angen. Mae`r plant yn cymryd rhan weithredol gyda'r pwyslais ar ddatblygu eu hannibyniaeth, ond yn derbyn cymorth yn ôl yr angen.

Mae'r arweinydd yn monitro'r ddarpariaeth ac wedi sicrhau bod gan y lleoliad yn adnoddau da. Mae'n ymwybodol o ddiffygion, er enghraifft yr angen i ychwanegu at adnoddau TGCh.

Mae gan y lleoliad systemau priodol ar gyfer gwerthuso ymarferwyr sy'n gysylltiedig â chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac annog bwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion, sy`n arwain at ystod dda o brofiadau`n cael eu darparu ar gyfer y plant. Trwy drafodaeth reolaidd mae`r staff yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen i wella'r ddarpariaeth hefyd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a chynhwysfawr sy'n nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r cynllun gwella yn realistig ac yn gyraeddadwy ac yn ffocysu'n dda ar wella safonau cyflawniad a lles y plant. Mae'r cynllun yn cyfeirio'n dda at ddatblygu`r lleoliad ymhellach; mae'n nodi graddfa amser addas, cyfrifoldebau ar gyfer ei weithredu a`r meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw`r targedau yn cael eu blaenoriaethu.

Mae darpariaeth a safonau`r lleoliad yn cael eu monitro'n effeithiol gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg a swyddog datblygu Mudiad Meithrin. Mae'r cydweithio gyda staff y lleoliad wedi bod yn effeithiol iawn wrth gyflawni'r safonau uchel cyfredol o gyflawniad a lles y plant.

Mae`r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ystod o agweddau, gan gynnwys diogelu plant, cymorth cyntaf ac addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r lleoliad wedi mynd i`r afael ag argymhellion adroddiad blaenorol Estyn yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy'n gwneud cyfraniad gwerth chweil a buddiol i ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad y plant.

Mae'r berthynas gyda rhieni yn rhagorol. Maen nhw`n derbyn gwybodaeth berthnasol am y lleoliad mewn llyfryn cyflwyno sy'n eu darparu â gwybodaeth gefndirol. Mae llawer o blant wedi mynychu'r sesiwn Dydd Llun o "Ti a Fi" ac yn gyfarwydd â'r lleoliad. Mae`r rhieni yn derbyn cylchlythyrau a gwybodaeth reolaidd am y pynciau addysgu. Mae gwybodaeth berthnasol bellach ar gael ar yr hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd rheolaidd i drafod datblygiad eu plant gyda'r staff pan fyddant yn dod â`u plant a`u casglu.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr gyda Ysgol Hafodwenog. Mae`r plant yn ymweld â'r ysgol ar gyfer gweithgareddau ysgol, fel cyngherddau Nadolig, ac yn adnabod athrawes y Blynyddoedd Cynnar yn dda. Mae`r trefniadau trosglwyddo yn effeithiol iawn ac yn hwyluso symudiad y plant i'w hysgol newydd.

Mae'r bartneriaeth ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth ddatblygu`r ddarpariaeth a sicrhau safonau da o gyflawniad a lles. Mae cysylltiadau da hefyd ar waith gyda lleoliadau eraill, fel wrth gyfuno i ddarparu "sesiynau symud".

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r adnoddau`n cael eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gyda staff sydd â chymwysterau a phrofiad da sy`n sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n effeithiol. Mae`r ymarferwyr wedi gweithio'n adeiladol gyda chymorth allanol i sicrhau cwricwlwm o ansawdd da ac wedi mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol perthnasol.

Mae'r ddau ymarferwyr yn siarad Cymraeg ac yn fodelau rôl iaith da ar gyfer y plant. Maen nhw`n sensitif i anghenion y plant ac yn rhoi cefnogaeth angenrheidiol iddynt yn ôl yr angen. Mae`r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn ac mae hyn yn sicrhau lleoliad sy'n darparu plant ag awyrgylch tawel a chartrefol.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r penderfyniadau cyllidebol a gwariant sy`n cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion canfyddedig y lleoliad. Mae defnydd effeithlon o arian sy`n cael ei godi drwy ddigwyddiadau cymunedol i ychwanegu at adnoddau`r lleoliad.

Gan gymryd i ystyriaeth y defnydd effeithlon o`r arian a safonau da`r plant o gyflawniad a lles a lefel uchel o foddhad gan rieni, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |